

Canllaw i athrawon i astudiaeth achos Liberia

Mae'r arian y mae ysgolion a chymunedau wedi ei godi tuag at Wythnos Ddŵr Oxfam wedi cefnogi nifer o brosiectau gan gynnwys cynllun dyfrhau yn Liberia. Mae'r astudiaeth achos hon yn rhoi gwybodaeth bellach am y prosiect hwn. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys gwyllo fideo byr ac edrych ar stori luniau ynglŷn â sut mae ffermwyr sy'n tyfu reis ar raddfa fach yn newid eu bywydau drwy gynllun dyfrhau. Gall y disgyblion wedyn ddefnyddio eu gwybodaeth am achosion, symptomau ac atebion yn ymwneud â pheryglon prinder dŵr a ddysgwyd ganddynt drwy weithgareddau *Dysgu a Meddwl* blaenorol drwy greu coeden peryglon prinder dŵr ar gyfer Liberia.

Gellir defnyddio deunydd yr astudiaeth achos hon fel gweithgaredd ar ei phen ei hun, neu yn ddefnyddol yn dilyn y gweithgareddau *Dysgu a Meddwl*.

Ystod oedran: 7-14 oed

Amser: 30-40 munud

- Cyflwyniad i Liberia: 15-20 munud
- Coeden peryglon prinder dŵr ar gyfer Liberia: 15-20 munud

Amcanion dysgu

- Cymhwyso dealltwriaeth o achosion a symptomau peryglon prinder dŵr i astudiaeth achos Liberia
- Canfod atebion i beryglon prinder dŵr yn astudiaeth achos Liberia

Cwestiynau allweddol

- Beth sydd wedi achosi peryglon prinder dŵr yn ne-ddwyrain Liberia?
- Beth yw symptomau peryglon prinder dŵr yn ne-ddwyrain Liberia?
- Sut mae Oxfam a'r gymuned leol yn gweithio i ddatrys problemau ynghylch dŵr?

Adnoddau (noder bod taflennu i'w llungopïo ar gael ar ddiwedd y pdf hwn)

- *Seilwaith a Pheryglon Prinder Dŵr: Liberia* clip fideo
- *Stori Luniau Liberia (ar ddiwedd y pdf hwn)*
- *Tabl peryglon prinder dŵr yn ne-ddwyrain Liberia*
- *Templed coeden peryglon prinder dŵr*
- *Gwybodaeth am Liberia – gweler y wybodaeth Meddwl*
- Papur A4

Gweithgaredd 1: Cyflwyniad i Liberia (15-20 munud)

Gwylwch glip fideo Seilwaith a Pheryglon Prinder Dŵr: Liberia

Mae'r clip fideo hwn yn dangos sut mae Oxfam a'r gymuned leol wedi gwella'r seilwaith dŵr yn ne-ddwyrain Liberia, gan alluogi'r ffermwyr i dyfu mwy o fwyd.

Darllenwch stori luniau Liberia

Rhowch amser i'r disgyblion ofyn cwestiynau. Efallai yr hoffech gyfeirio at wybodaeth *Meddylwch* ynglŷn â Liberia ar gyfer y gweithgaredd hwn.

OXFAM WATER WEEK

Gweithgaredd 2: Coeden peryglon prinder dŵr ar gyfer Liberia (15-20 munud)

1. Mewn parau, ac wedyn fel dosbarth, gofynnwch i'r disgyblion gymhwyso eu gwybodaeth am achosion a symptomau peryglon prinder dŵr o weithgareddau *Dysgu a Meddwl* blaenorol i'r sefyllfa yn ne-ddwyrain Liberia. Gofynnwch iddynt ysgrifennu'r rhain ar goeden peryglon prinder dŵr newydd ar gyfer Liberia (gweler y templed isod).
2. Nesaf, trafodwch yr atebion i beryglon prinder dŵr yn yr ardal hon: sut mae Oxfam a ffermwyr reis lleol yn datrys problemau'n ymwneud â dŵr? Ychwanegwch yr atebion hyn at y goeden ar ffurf 'ffrwythau'.
3. Yn olaf, gofynnwch i'r disgyblion drafod effaith yr atebion hyn ar ffermwyr, fel Susanna, sy'n tyfu reis ar raddfa fach (gweler y gadwyn ganlyniadau isod).

Efallai y byddwch yn dymuno defnyddio'r atebion enghreifftiol (nid yw'n rhestr gyflawn) sydd i'w gweld yn y nhabl *Peryglon prinder dŵr yn ne-ddwyrain Liberia* isod. Gall y rhain gael eu torri ar wahân er mwyn i'r disgyblion benderfynu p'un a ydynt yn achosion, yn symptomau, yn atebion neu'n effeithiau.

Gwahaniaethu


Gwneud y dasg yn haws: rhowch gopi o dabl *Peryglon prinder dŵr yn ne-ddwyrain Liberia* i'r disgyblion heb ei dorri ar wahân.

Gwneud y dasg yn anos: gofynnwch i'r disgyblion lunio cadwyn ganlyniadau i ddangos yr effeithiau cadarnhaol y gall atebion i broblemau'n ymwneud â dŵr gael ar ffermwyr, fel Susanna, sy'n tyfu reis ar raddfa fach. Er enghraifft:




OXFAM WATER WEEK

Templed coeden peryglon prinder dŵr



Peryglon prinder dŵr yn ne-ddwyrain Liberia

Achosion	Symptomau	Atebion	Effeithiau
Gwrthdaro: Dinistriwyd y seilwaith	Cynaeafau gwael: Cafwyd llifogydd ar ffermydd y tir isel felly gorfodwyd y ffermwyr i ddefnyddio caeau'r tir uchel sydd yn annibynadwy o ran glaw a phroblemau wrth i blâu fwyta'r cnydau.	Argaeau a chamlesi yn cael eu hadeiladu gan y gymuned leol gyda chyllid a chymorth Oxfam a'i sefydliadau partner yn Liberia.	Gall y ffermwyr wneud arian drwy reis sydd dros ben a bwydydd eraill yn y farchnad. Mae hyn hefyd yn golygu y gall aelodau eraill y gymuned leol brynu reis yn rhatach.
Tlodi: Nid oes gan lywodraeth Liberia ddigon o arian i ailadeiladu ac adnewyddu seilwaith dŵr.	Datgoedwigo: mae ardaloedd o dir uchel yn cael eu clirio i greu tir ffermio newydd gan y bu llifogydd ar y tir isel.	Ffermwyr yn paratwir caeau newydd ar y tir isel.	Mae'r gyfradd ddatgoedwigo ar y tir uchel wedi lleihau.
	Newyn: roedd rhai pobl yn dioddef i ddiffyg maeth gan na allai'r ffermwyr bob amser ddarparu deiet cytbwys.	Rhoddir hadau, offer a hyfforddiant i ffermwyr i dyfu reis yn y caeau sy'n cael eu dyfrhau.	Mae'r ffermwyr a'r cymunedau lleol yn bwyta'n fwy maethlon ac yn iachach gan y gallant ddefnyddio arian a ddaw o werthu reis dros ben i ehangu eu deiet a phrynu meddyginiaeth.
Y newid yn yr hinsawdd: mae faint o law sy'n disgyn yn llawer llai rhagweladwy	Llai o amser gyda'r teulu: roedd yn rhaid i'r ffermwyr, a llawer ohonynt yn famau, gerdded pellteroedd maith i ddod o hyd i dir addas i dyfu bwyd.	Aelodau'r gymuned leol yn cydweithio i reoli'r cyflenwad dŵr a gwella arferion cynhyrchu bwyd.	Gall y ffermwyr dreulio mwy o amser gyda'u teuluoedd gan fod eu tir ffermio yn agosach at eu cartrefi.
	Llai o gyfleoedd i dderbyn addysg: ni chawsai rhai plant y cyfle i fynd i'r ysgol am na allai'r ffermwyr fforddio'r ffioedd, gwisgoedd a deunyddiau.	Mae'r ffermwyr yn plannu hadau reis sydd â mwy o gnwd, ac yn gweithio'n galed i gynhyrchu dau neu dri chynhaeaf y flwyddyn.	Mwy o gyfleoedd i blant dderbyn addysg gan y gall y ffermwyr ddefnyddio'r arian a ddaw o werthu'r bwyd dros ben i dalu am ffioedd, gwisgoedd a deunyddiau ysgol



Meddwl: Stori â llun - Liberia

Mae prosiect dŵr Oxfam yn Ne-ddwyrain Liberia yn canolbwyntio ar ffermio mewn corstir yn Grand Gedeh a siroedd Afon Gee. Cyn i'r prosiect ddechrau, yn amlach na pheidio roedd caeau'r tir isel wedi'u llifogi dan ddŵr, gan ei gwneud hi'n amhosib i bobl dyfu bwyd. Ers talwm, defnyddiwyd systemau dyfrhau i reoli'r dŵr, ond o ganlyniad i flynyddoedd llawer o ryfeloedd cartref, cafodd yr argaeau a'r dyfrffyrdd eu difrodi a'u difetha. Hefyd fe adawodd llawer o ffermwyr yr ardal. Ar ôl iddynt ddychwelyd wedi i'r ymladd ddod i ben, roedd llawer iawn o'r tir uchel wedi



Llun: Kieran Doherty/ Oxfam 2012

Pan rydym yn plannu ar yr ucheldir dan oleuni cryf yr haul, mae rhan fwyaf o'r reis yn sychu.

Roeddwn yn arfer gofyn i fy mam a'm modrybedd fy helpu, i roi bwyd i mi ac i dalu fy ffioedd ysgol, ond erbyn hyn rydw i'n ffermio ar y tir isel ac felly nid oes angen i mi fegera am gymorth. Rydw i'n cynhyrchu digon o reis i'w gwerthu. Rydym yn defnyddio'r elw o werthu'r reis i dalu ffioedd ysgol a hefyd i brynu gwisg ysgol, offer ysgol a dillad.

Llun: Kieran Doherty/Oxfam 2012

Ffermio ar gaeau'r ucheldir – yr anfoneision:

Mae ffermwyr wedi bod wrthi'n ddyfal yn clirio'r llwyni yn yr ucheldir gan fod y tiroedd isel wedi'u llifogi dan ddŵr, ond dyma'r prif anfoneision:

- gall y cynaeafau fod yn wael gan fod y newid yn yr hinsawdd yn peri i'r glawiad fod yn anwadal
- plâu yn difetha'r cnydau bwyd
- mae'r angen parhaus i ffermio tiroedd mewn ardaloedd newydd yn achosi datgoedwigo, ac o ganlyniad, mae'n rhaid i lawer o'r ffermwyr



Mae Lucy Tarlue yn byw gyda'i gŵr a'i saith o blant yn Sir Grand Gedeh. Llun: Kieran Doherty/Oxfam 2012



Llun: Aubrey Wade/Oxfam 2012

Dyfrhau ar gaeau'r tir isel – y manteision:

- mae'r cynaeafau'n ddibynadwy ac yn fwy rheolaidd: gellir tyfu llawer o hadau reis gan fod cyflenwad y dŵr wedi'i reoli. Gellir cynaeafu'r reis ddwywaith neu deirgwaith y flwyddyn.
- mae'r camlesi dŵr yn cadw'r plâu oddi wrth y cnydau bwyd.
- mae caeau'r ffermwyr dafliaid carreg o'u cartref, felly mae'r plant yn cael treulio mwy o amser gyda'u rhieni.
- lleihau cyfradd datgoedwigo yn yr ucheldir



Mae Oxfam yn cydweithio â'r gymuned leol i adeiladu argaeau a chamlesi er mwyn dyfrhau'r caeau gyda'r cyfaint cywir o ddŵr drwy'r flwyddyn. O ganlyniad bydd mwy o ffermwyr yn gallu rheoli cyfaint y dŵr sy'n dod i'w caeau, hyd yn oed mewn amseroedd o sychder neu lifogydd.

Mae hyn yn newyddion da i ffermwyr a'u teuluoedd oherwydd maent yn gallu tyfu digon o fwyd iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd, a hyd yn oed rhywfaint dros

Mi alla i gael dwywaith cymaint o gynhaeaf yn y corysdd. Mi gaf i'r cynhaeaf cyntaf, yna'r ail. Ar yr ucheldir dim ond unwaith yn unig mae'r cynhaeaf, felly rydw i'n cael mwy o reis o'r corysdd.

Mae Beatrice Quayee yn byw gyda'i gŵr a'i phump o blant yn Sir Afon Gee. Llun: Kieran Doherty/ Oxfam 2012



Mae Susanna Edwards yn wraig weddw 53 oed sy'n fam i naw o blant ac mae hi hefyd yn gofalu am ei mam sydd mewn oed. Mae hi'n byw yn Sir Grand Gedeh. Gallwch ei gweld ar y clip ffilm *Meddwl* cyntaf. Cyn y prosiect Oxfam, roedd Susanna'n arfer ffermio ar y tir uchel, yn bell o'i chartref, ac roedd treulio amser gyda'i phlant yn anodd. Yn awr, gan fod Oxfam wedi adeiladu argaeau a chamlesi, mae Susanna yn gallu rheoli cyfaint y dŵr sy'n cyrraedd ei fferm reis ar y tir isel, ac mae ei bywyd hi'n haws o lawer.

Ar ôl i'ch gŵr farw, mae cynnal eich plant ar eich pen eich hun yn anodd iawn. Ers talwm byddwn yn cerdded chwe milltir, ac ar ddiwedd y diwrnod roedd yr anifeiliaid wedi bwyta'r reis i gyd. Roedd yn rhaid i mi adael fy mhiant yn ystod yr wythnos i dyfu bwyd. Bellach mae pethau'n well: mae'r fferm yn agos at fy nhŷ. Rydw i'n gallu cyrraedd y fferm mewn tri munud. Rydw i'n hapus.

Mae bwyd yn golygu arian sy'n golygu fod plant yn gallu mynd i'r ysgol. Rydych yn hunangynhaliol, ac yn gallu gwneud popeth eich hun, mae'n wych!

Sut mae ffermwyr yn mynd ati i gael cae ar y tir isel yn barod i dyfu reis?

- Clirio'r chwyn drwy ddefnyddio twca (machete)
- Aredig y tir â llaw neu drwy ddefnyddio llyw pŵer (power tiller) ym mherchnogaeth cwmni cydweithredol
- Agor y sianel ddyfrhau i adael y dŵr i mewn i'r cae
- Gwneud y tir yn wastad drwy ddefnyddio cribin neu fforch chwynnu
- Yna mae'r tir yn barod i gael ei blannu!



Fel rydych yn gweld, mae'r ffermwr angen llawer o offer, felly darperir y rhain gan Oxfam hefyd!

Cefais offer, rhawiau, fforch chwynnu, esgidiau glaw, rhathell, cribin a hadau reis. Búm yn yr hyfforddiant. Mi wnaethon nhw ddweud wrthym sut i blannu reis a sut i gynnal y fferm, sut i osod ein lleiniau a defnyddio'r camlesi.

"Rydw i wedi gweld gwahaniaeth yn y tywydd, oherwydd fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn mae digonedd o law, ond eleni nid ydi hi wedi bwrw cymaint. Nid yw hyn yn cael effaith ar fy ngwaith fferm gan fy mod yn gallu rheoli'r dŵr yn y fan hon.

Bellach mae'r plant yn hapus oherwydd maent gyda'i gilydd bob dydd, nid ydynt yn gorfod byw heb eu rhieni am wythnos.



Ar ddiwedd y cynhaeaf, rydym yn coginio digon o reis i borthi'r pum mil, ac rydym yn gwahodd pobl eraill i ymuno â ni am ddaid i'w fwyta.



[Uchod] Julius, mab 28 oed Susanna a'i hŷyr.
[Top] Susanna. Lluniau: Kieran Doherty/ Oxfam 2012



[Uchod] Garrison Seoh a'i wraig Lucy.
[Top] Garrison yn ei gae. Lluniau: Kieran Doherty/ Oxfam 2012

Rhan o'r ymgyrch 'Digon o fwyd i bawb OS', a gefnogir gan Oxfam, yw annog y llywodraethau i roi cymorth ariannol i'r ffermwyr hynny sy'n ffermio ar raddfa fechan fel Susanna, Garrison, Lucy a Beatrice er mwyn iddyn nhw allu tyfu digon o fwyd dros eu hunain.

Mae rhoi arian i brosiectau dyfrhau fel prosiect Oxfam yn Liberia yn un ffordd o wneud hyn.